

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Tachwedd 5ed, 2015 yn brydlon am 7-00 y.h.  
yn **FESTRI CAPEL PENCAENEWYDD.**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Hydref 1af, 2015 ac er gwybodaeth y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu ar Hydref 22ain, 2015. Sylwer ar un cofnod yn arbennig sef- gofynnwyd i'r Clerc roi eitem ar raglen waith Cyngor mis Tachwedd yn gofyn i Gyngorwyr ydynt yn ymwybodol o unrhyw waith sydd angen ei wneud gan y Cyngor yma yn eu wardiau.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
  1. Oedolion, Iechyd a Llesiant; Cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2015.
  2. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy; Llwybr Garn Bentyrch, Llangybi.
  3. Swyddog Cludiant Cyhoeddus a Chymunedol; gwasanaeth Arriva rhif 3 rhwng Pwllheli a Phorthmadog a gwasanaeth Express Motors drwy Rhoslan am Borthmadog.
  4. Swyddog Cofrestru, Cyngor Cymuned Llanystumdwy, Sedd Wag – Ward Llanstumdwy, cyfethol aelod newydd.
  5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Materion y Gymuned; Rhoslan, sylwadau ar y gordyfiant ar y ffordd o Bont Bryn Beddau a heibio Betws Bach a Llangybi, barbio ac atgyweirio arwyddion 30 m.y.a.
  6. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd; Biniau Halen.
6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y Gymuned:  
Cais rhif C15/1082/41/LL – Cais i godi estyniad deulawr ar ochr yr eiddo; Ty'n y Coed Uchaf, Chwilog.
7. Llywodraeth Cymru'n gofyn am farn ar wasanaethau iechyd yng Nghymru.
8. **Materion yn y gymuned.**  
Chwilog.  
Llanarmon  
Llanystumdwy
  1. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod sbwriel wedi ei daflu gyferbyn â chyffordd Tyddyn Sianel.
  2. Mynwent Newydd Llanystumdwy; gair gan y Cynghorydd Marian Evans.Rhoslan
  1. Y ciosg.
  2. Llythyr oddi wrth Express Motors ynghylch y gwasanaeth bws.Llangybi
  1. Cwynion am gyflymder rhai tractorau trwy bentref Llangybi a diffyg ystyriaeth i gerddwyr ar ffyrdd cul.
  2. Dŵr yn cronni ger mynedfa Tyddyn Llan pan mae'n bwrw.
9. Ymateb Cyngor Cymuned Llannor i'r problemau gyda'r gwasanaeth ffôn yn ardal Y Ffôr dro yn ôl.
10. Ymateb BT i'r gwyn am y gwasanaeth Bandeang yn yr ardal.

11. Llythyr o Swyddfa Dafydd Elis-Thomas AC ynghylch Gwrthwynebiadau i Geisiadau Cynllunio Cyngor Gwynedd.
12. Archwiliad Blynyddol Cae Chwarae Llangybi; wedi anfon yr adroddiad yma ymlaen at y Cynghorwyr sydd ar e bost.
13. Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor.
14. Ar gais y Cadeirydd, Ciosgs; wedi anfon y linc atoch yn barod.
15. Swyddfa Archwilio Cymru, Trefniadau Archwilio Allanol: Ffurflenni Blynyddol 2015-6, 2016-7, 2017-18.

**Y Cyngor yn gaeedig i'r Cyhoedd ac i'r Wasg.**

It is possible to get a translation, contact the Clerk.